



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad Blynyddol 2020/21

This document is available in English.
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk


Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn ymholiadau@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk

Cynnwys

Pennod 1	Rhagair	04
Pennod 2	Cyflwyniad	06
Pennod 3	Amcanion	09
Pennod 4	Canlyniadau	11
Pennod 5	Cyllideb a Gwariant	13
Pennod 6	Rhaglen Waith ar gyfer 2021/22	15



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

Canolbwyntiodd y prif weithgareddau yn ystod 2020-21 ar baratoi'r data ar gyfer Arolwg 2023, recriwtio staff ychwanegol, datblygu polisiau allweddol yn ymwneud â'r Arolwg Seneddol, cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol a chyhoeddi'r Canllaw i'r Arolwg 2023'. Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuodd y Comisiwn ddatblygu ei gynigion cychwynnol hefyd, a gweithiodd mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ffiniau i Loegr a'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban i gaffael a datblygu'r Porth Ymgynghori ar gyfer Arolwg 2023.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau o'r Comisiwn sy'n ymadael, Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert McNabb, am eu cyfraniadau amhrisiadwy dros yr wyth mlynedd diwethaf.

Yr Anrhydeddus Meistres Ustus Jefford DBE

Dirprwy Gadeirydd



Cyflwyniad

Y Noddwr

1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

1.2 Ar 23 Medi 2021, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiadau ysgrifenedig ar newid Peirianwaith Llywodraeth. Bydd y Grŵp Undeb a Chyfansoddiad o Swyddfa'r Cabinet yn symud i'r adran newydd, yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau. Bydd y symudiad hwn yn creu newid o ran yr adran nawdd i'r Comisiwn.

Y Comisiwn

1.3 Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Corff annibynnol, anwleidyddol a chwbl amhleidiol ydyw. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.

1.4 O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC)¹, a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

Aelodaeth

1.5 Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex officio pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau

¹ Newidiwyd yr enw o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: sef, Yr Anrhydeddus Meistres Ustus Jefford. Yr Aelodau yw Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam Hartley (penodwyd y ddau o 05 Hydref 2020).

1.6 Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) wedi cael ffi ddyddiol y cytunir arni gan yr Adran Nawdd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn a, chyda'r Dirprwy Gadeirydd, mae ganddynt yr hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis costau teithio a chynhaliaeth) yr eir iddynt wrth wneud gwaith y Comisiwn.

1.7 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddarau bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

1.8 Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un o'r rhain yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Gwladol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon dynodedig yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

1.9 Mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. O dan drefniadau'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, mae'r Ysgrifennydd, Mrs Shereen Williams MBE OStJ yn Brif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFFDLC) hefyd.

1.10 Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu harolygon a gwneud eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth CFFDLC yng Nghaerdydd, a chysylltir â Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru ynglŷn â staffio ac adeiladau. Mae'r berthynas weithio hon yn dod o dan femorandwm cyd-

ddealltwriaeth rhwng y ddau Gomisiwn a'u cyrff noddi priodol.

Dyletswyddau Statudol

1.11 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1.12 Gwnaeth Deddf Etholaethau Seneddol 2020 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol.

1.13 Roedd y Ddeddf hefyd yn dynodi etholaeth Ynys Môn yn 'etholaeth warchodedig', yn cyflwyno rheol 'awtomatigrwydd' ar weithredu argymhellion y pedwar Comisiwn Ffiniau ac yn gwneud newidiadau i'r broses ymgynghori.

Amcanion

Amcan Cyffredinol

2.1 Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus.

Amcan Penodol ar gyfer 2020/21

2.2 Dyma oedd yr amcanion ar gyfer y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21:

- Cynllunio gofynion gwaith ac adnoddau'r arolwg sydd i ddod. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer yr arolwg wedi'u cytuno ac ar waith;
- Sicrhau bod y wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr arolwg, gan gynnwys data etholiadol, yn cael ei diweddarau a'i chynnal;
- Cynhyrchu a chyhoeddi llyfryn Canllaw i'r Arolwg sy'n esbonio sut y bydd y broses ar gyfer yr arolwg yn gweithio;
- Cyhoeddi datganiad ar ddechrau Arolwg 2023, a dechrau ffurfio Cynigion Cychwynnol;
- Bydd adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2019-20 yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn; a
- Chynnal unrhyw weithgareddau ac argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Arolwg 2018 yn barod ar gyfer Arolwg 2023.

Safonau'r Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ddogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Canlyniadau

Cyfarfodydd

3.1 Cynhaliwyd saith cyfarfod o'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Ffocws y cyfarfodydd oedd cynllunio ar gyfer Arolwg 2023, datblygu'r cyhoeddiad 'Canllaw i'r Arolwg' a chwblhau cynlluniau ar gyfer yr 'Adroddiad Cynigion Cychwynnol'. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd briffio ar gyfer Arolwg 2023 gyda phleidiau gwleidyddol cymwys, Aelodau Seneddol a rhanddeiliaid allweddol. Hefyd, cyfranogodd y Comisiwn yng nghyfarfod blynyddol Comisiynau Ffiniau'r DU ym mis Tachwedd 2020.

Yr Iaith Gymraeg

3.2 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithredu Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.

Hyfforddiant

3.3 Mae cyrsiau hyfforddi hanfodol y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu, ac er budd datblygiad personol, wedi parhau eleni, ac yn cynnwys: sesiwn a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol a gweithdai ar Lywodraeth Leol, y Senedd a Meistroli sgysiau mewn byd gwleidyddol. Mae aelodau staff yn parhau i gael eu hatgoffa yn y cyfarfod tîm misol am y cymorth sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg, ac argaeledd yr hyfforddiant hwnnw, i unrhyw aelod o staff sydd â diddordeb. Mae un aelod o staff wedi cofrestru ar gwrs Cymraeg yn ystod y flwyddyn.

COVID-19

3.4 Yn ystod 2020-21 sefydlodd y Comisiwn system gadarn Gweithio o Gartref ar gyfer yr holl staff, a datblygodd weithdrefnau digidol newydd i ddisodli gweithdrefnau papur presennol, er mwyn

sicrhau parhad busnes yn ystod cyfyngiadau'r pandemig COVID-19. Parhaodd y Comisiwn i ddilyn canllawiau a chyfyngiadau COVID-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Parhaodd staff i weithio o gartref yn ystod cyfnodau clo llawn, gyda threfn dychwelyd i weithio i'r swyddfa'n rhannol ar sail rota ar gyfer nifer isel o staff yn ystod cyfnodau pan laciwyd y cyfyngiadau.

Gwybodaeth

3.5 Mae'r Comisiwn yn trefnu bod cymaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ag sy'n ymarferol drwy'r wefan (www.comffin-cymru.gov.uk). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae gan y Comisiwn darged o 20 diwrnod i ymateb i'r cyfryw geisiadau. Yn 2020-21, derbyniodd y Comisiwn bum cais am wybodaeth, ac ymatebwyd i bob un ohonynt cyn pen 20 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â phedwar cais a dderbyniwyd yn 2019-20.

Cyllideb a Gwariant

Gwariant mis Ebrill 2020 hyd at fis Mawrth 2021

4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol y mae a wnelo'r adroddiad hwn â hi.

Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant

Elfen Gyllideb	Cyllideb (£)	Gwirioneddol
(£)	90,100	101,259
Cyflogau Staff	90,100	101,259
Ffioedd Comisiynwyr	18,000	11,306
Adeilad y Swyddfa	35,100	30,944
Teithio a Chynhaliaeth	3,000	-
Lletygarwch	430	-
TG a Thelathrebu	20,920	13,905
Costau Eraill Arolygon*	41,280	51,215
Cyfanswm	208,830	208,629

*yn cynnwys costau cyfryngau a hysbysebu, hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

4.2 Mae Tabl 1 yn dangos, ar gyfer 2020-21, bod y Comisiwn Ffiniau wedi tanwario'i gyllideb gan £201. Roedd Cyflogau Staff yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn sgil recriwtio Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn. Roedd ffioedd Comisiynwyr yn llai nag a amcangyfrifwyd yn sgil gofyniad am lai o gyfarfodydd nag a amcangyfrifwyd. Roedd cynnal cyfarfodydd y Comisiwn o bell yn golygu hefyd nad oedd unrhyw ofyniad am gostau Teithio a Chynhaliaeth. Roedd costau Adeilad a TG cyffredinol CFFDLC yn is nag a amcangyfrifwyd gan arwain at lai o gostau'n cael eu dyrannu i wariant y Comisiwn Ffiniau. Roedd Costau Eraill Arolygon yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn sgil costau Cyfreithiol a Chostau Cyfryngau ychwanegol yr aed iddynt yn dilyn recriwtio'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Ffioedd a Threuliau Aelodau

4.3 Yn ystod 2020-21, hawliwyd y ffioedd a'r treuliau canlynol gan Aelodau'r Comisiwn:

Aelod	Ffioedd	Treuliau
Mr P Loveluck	£3,286	£0
Yr Athrofa R McNabb	£3,286	£0
Mr H V Thomas	£2,275	£0
Mr S Hartley	£2,275	£0

Rhaglen Waith ar gyfer 2021/22

5.1 Amcanion penodol y Comisiwn yn 2021/22 fydd:

- Datblygu a chyhoeddi porth ymgynghori ar-lein i alluogi gwneud sylwadau ar Gynigion Cychwynnol Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol;
- Sicrhau penodi nifer addas o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn gyda'i waith, yn enwedig o ran cadeirio gwrandawiadau cyhoeddus ac asesu ymatebion i gynigion y Comisiwn ar gyfer etholaethau newydd;
- Datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau newydd i'w cyhoeddi ym mis Medi 2021;
- Cyhoeddi'r holl ddogfennaeth copi caled ac electronig ar gyfer cyhoeddi'r cynigion cychwynnol;
- Cynnal dau ymgynghoriad statudol cynhwysfawr ar y cynigion cychwynnol, un cyfnod ymgynghori 8-wythnos ac ymgynghoriad pellach 6-wythnos a fydd yn cynnwys y gwrandawiadau cyhoeddus gofynnol;
- Paratoi a chyhoeddi'r holl ymatebion ysgrifenedig a dderbynnir yn yr ymgynghoriad cyntaf ar y cynigion cychwynnol;
- Paratoi adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-21 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn;
- Darparu diweddariad i Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar waith a wnaed gan y Comisiwn ym mlwyddyn gyntaf Arolwg 2023; a
- Parhau ag unrhyw weithgareddau ac argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Arolwg 2018 a'i ymgorffori fel rhan o Arolwg 2023.
-

Cyllideb

5.2 Er mwyn gallu cyflawni'r amcanion a restrir yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £813,000 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.





Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru